| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD: | **14 HYDREF 2021** |
| TEITL: | **RHAGLEN GYFALAF 2021/22 –<br>ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2021** |
| PWRPAS: | **Adroddiad Monitro ar Wariant ac Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD IOAN THOMAS** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID** |

**1.** Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

**2.** Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Rhaglen Gyfalaf 2021/22 - Adolygiad Diwedd Awst 2021) i'r Cabinet ar 12 Hydref 2021 ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.

**3.** Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**Atodiadau:**
Adroddiad Cabinet 12/10/2021: Rhaglen Gyfalaf 2021/22 - Adolygiad Diwedd Awst 2021